Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl358

**Amseru:** Rheolaidd

**Teitl:** Cytundeb ar gyfer Cymorth Troseddwyr Cam-drin Domestig

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Comisiynu

**Crynodeb Gweithredol:**

Nodwyd Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol fel problem iechyd cyhoeddus gyffredinol ag effeithiau pellgyrhaeddol. Yn y DU, cyflwynwyd y Ddeddf Cam-drin Domestig yn 2021, gan gynnwys y drosedd newydd o ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol.

Cyflwynwyd Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn gynharach na hynny yng Nghymru, sef yn 2015, ac fe'i dilynwyd drwy gyhoeddi dogfen strategaeth ar gyfer 2022-2026. Yn ogystal, disgwylir i bob rhanbarth yng Nghymru ddatblygu ei strategaeth ranbarthol ei hun. Mae Partneriaeth Ranbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru'n cynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd, heddluoedd, gwasanaethau prawf, a phartneriaid eraill.

Er mwyn cefnogi'r strategaeth hon, cynhyrchwyd y dogfennau manyleb a thendr ar gyfer Cymorth Troseddwyr Cam-drin Domestig mewn partneriaeth â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Cynhaliwyd gwerthusiad o ddarpariaeth beilot flaenorol, gan gynnwys adborth gan randdeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth. Ymgysylltwyd â chyflenwyr cyn cyhoeddi tendr er mwyn cefnogi datblygu manyleb ac ystyriaeth ddyledus o'r farchnad gyflenwyr. Hysbysebwyd y cyfle tendr ar 'Gwerthwch i Gymru' drwy'r cyfnodolyn swyddogol gan fod gwerth y cytundeb dros y trothwy tendr. Gan hynny, roedd angen tendr y Gwasanaeth Canfod Tendr. Cyflwynwyd a derbyniwyd ymatebion tendr yn electronig a chawsant eu gwerthuso drwy gydymffurfio â deddfwriaeth gaffael. O ganlyniad i gwblhau gwerthusiad cydymffurfiol, argymhellir bod y cytundeb ar gyfer darpariaeth Cymorth Troseddwyr Cam-drin Domestig yn cael ei roi i'r consortiwm YPCh (Ymwybyddiaeth, Perthnasau a Chyfathrebu), a arweinir gan Wasanaeth Cam-drin Domestig Threshold am gyfnod o dair (3) blynedd, gyda hyd at ddau (2) gyfnod estyniad blynyddol. Dangosodd Gwasanaeth Cam-drin Domestig Threshold eu bod nhw'n cynnig datrysiad â mantais economaidd a thechnolegol gydymffurfiol, a nhw hefyd oedd y darparwyr presennol ar ran y Bartneriaeth.

**Argymhelliad:**

Cymeradwyodd CHTh yr argymhelliad i roi'r cytundeb ar gyfer Cymorth Troseddwyr Cam-drin Domestig i'r consortiwm YPCh (Ymwybyddiaeth, Perthnasau a Chyfathrebu), a arweinir gan Wasanaeth Cam-drin Domestig Threshold. Y cyfanswm cost ar gyfer y ddarpariaeth dros y cyfnod tair (3) blynedd gychwynnol yw £608,480.52. Cyfraniad HDP ar gyfer yr un tymor yw £60,848.05 oherwydd ymgodiadau blynyddol.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy’n cymeradwyo’r cais uchod.

**Llofnod:**  **Dyddiad: 10/12/2024**